# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 3

GWAREDIADAU TRETHADWY A WNEIR AR SAFLEOEDD TIRLENWI AWDURDODEDIG

## PENNOD 4

CASGLU A RHEOLI'R DRETH

*Talu, adennill ac ad-dalu treth*

### 43 Dyletswydd i gadw crynodeb treth gwarediadau tirlenwi

(1) Rhaid i berson sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy gadw cofnod (sef "crynodeb treth gwarediadau tirlenwi") o—

(a) swm y dreth sydd i'w godi ar y person, [F1]...

**[**[F2](aa) swm y credyd treth a hawliwyd gan y person, a**]**

(b) y dreth a dalwyd gan y person,

mewn cysylltiad â phob cyfnod cyfrifyddu.

(2) Caiff ACC bennu—

(a) ar ba ffurf y mae'n rhaid cadw'r crynodeb treth gwarediadau tirlenwi, a

(b) yr wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ynddo.

(3) Mae'r crynodeb treth gwarediadau tirlenwi i'w drin at ddibenion DCRhT fel cofnod y mae'n ofynnol ei gadw a'i storio'n ddiogel o dan adran 38(1) o DCRhT at ddiben dangos bod y ffurflen dreth y mae'n ofynnol i'r person ei dychwelyd mewn cysylltiad â'r cyfnod cyfrifyddu yn gywir ac yn gyflawn.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 43. (See end of Document for details)*

### Diwygiadau Testunol

**F1** Gair yn a. 43(1)(a) wedi ei hepgor (1.4.2018) yn rhinwedd Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/101), rhl. 1(2), **Atod. para. 4(a)**

**F2** A. 43(1)(aa) wedi ei fewnosod (1.4.2018) gan Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/101), rhl. 1(2), **Atod. para. 4(b)**

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 43 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 43(1)(3) mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**I3** A. 43(2) mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(o)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 43.